CYNGOR CYMUNED BETWS YN RHOS a LLANELIAN YN RHOS
COMMUNITY COUNCIL

ADRODDIAD BLYNYDDOL 1/4/2025 – 31/3/2026

Dyma Adroddiad Blynyddol Cyngor Cymuned Betws yn Rhos a Llanelian yn Rhos ar gyfer y flwyddyn 2025 i 2026.

RHIFAU AR GOFRESTR ARDAL Y CYNGOR

Betws yn Rhos – 554 Llanelian yn Rhos – 314 Cyfanswm – 868

AELODAU'R CYNGOR CYMUNED

Cadeirydd: Glena Humphrey, Bwrdd Rheoli Ysgol Betws yn Rhos
Is-Gadeirydd: Gethin Owen, Neuadd Bentref, Betws yn Rhos
Cynghorwyr:
Irwedd Griffiths Bwrdd Rheoli Ysgol y Plas
D Gwyn Jones Neuadd Gymunedol, Llanelian yn Rhos
John Evans Cymdeithas Chwaraeon, Betws yn Rhos
Goronwy Rees Williams
Hefin Williams Awdurdod Addysg Lleol
Gwenda Davies
Gwenno Thomas
Tudur Roberts
Cynghorydd Sir Conwy: Ifor Glyn Lloyd
Clerc: Mel Jones

ETHOLIADAU

Ni chynhaliwyd unrhyw etholiadau yn ystod y flwyddyn. Yn ystod y flwyddyn, cyfetholwyd dau Gynghorydd newydd i

ymuno â'r Cyngor Cymuned.
Disodlodd Gwawr Thomas y diweddar John Roberts a disodlodd Tudur Roberts Mr Bryn Jones a ymddiswyddodd o'r Cyngor Cymuned.

CYFARFODYDD

Cynhaliwyd deg cyfarfod yn ystod y flwyddyn. Nid oes cyfarfodydd yn cael eu cynnal ym mis Awst nac ym mis Rhagfyr.
Mae'r cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn gyfartal rhwng dau leoliad – y Pafiliwn Chwaraeon, Betws yn Rhos a'r Neuadd Bentref, Llanelian.

PRESENOLDEB

Roedd presenoldeb y Cynghorwyr yn 74% yn ystod y flwyddyn, ac fe fynychodd y Cynghorydd Sir 6 o'r cyfarfodydd.

CYLLID

Gwnaed cais a'i dderbyn gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy am y swm o £18,000 fel y Praesept ar gyfer y flwyddyn.
Roedd y gwariant fel a ganlyn:
Cyflog y Clerc/HMRC = £9,585.31
Grantiau i grwpiau cymunedol = £3,083.50
Costau gweinyddol amrywiol gan gynnwys WiFi/gwefan = £2,173.70
TAW = £283.60
Archwiliad Blynyddol = £708.60
Rhent ystafelloedd cyfarfod = £160.00
Gwasanaethau cyflogres = £255.76
Taliadau banc = £25.40

Cyfanswm = £16,275.87

ARCHWILIADAU BLYNYDDOL

Roedd gan yr archwiliad mewnol rai sylwadau ac arsylwadau, ac ymdriniwyd â'r rhain cyn eu cyflwyno i Archwilio Cymru. Mae'r papurau archwilio mewnol ar wefan y Cyngor Cymuned. Derbyniwyd yr adroddiad archwilio llawn gan Archwilio Cymru ar ôl rhywfaint o oedi, ac mae hwn wedi ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor Cymuned.

CEISIADAU CYNLLUNIO

Trafodwyd 31 o geisiadau cynllunio o fewn ardal y Cyngor Cymuned a chyflwynwyd adroddiad ysgrifenedig i Adran Gynllunio Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar gyfer pob cais, gan amlinellu barn y Cyngor.
Cymeradwywyd 22 o'r ceisiadau, gwrthodwyd 4, tynnwyd 1 yn ôl ac mae 4 yn dal i gael eu hystyried ar adeg ysgrifennu.

FFERMYDD GWYNT

Mae hwn yn faes sy'n parhau i ddatblygu, gyda datblygiad diweddar ar y môr – Awel y Môr – a chynnig ar gyfer fferm wynt/parc solar ar Fynydd Llanelian. Mae'r cynnig hwn wedi ei ohirio ar hyn o bryd. Mae'n amlwg bod hyn wedi achosi pryder mawr i drigolion. Bydd y mater yn cael ei fonitro'n agos wrth i ddatblygiadau fynd rhagddynt.

HYFFORDDIANT

Ym mis Rhagfyr 2025 cynhaliwyd digwyddiad hyfforddi ar y cyd â Chyngor Cymuned Llanfair T.H, wedi ei hwyluso gan Un Llais Cymru. Pwnc yr hyfforddiant oedd "Cod Ymddygiad Cynghorwyr – Modiwl 9". Mynychodd saith Cynghorydd a'r Clerc y sesiwn. Mae hyfforddiant pellach wedi'i gynllunio ar

gyfer y flwyddyn i ddod ar gyfer y Cynghorwyr newydd eu penodi. Mae Cynllun Hyfforddi wedi'i fabwysiadu.

SYLWADAU CYFFREDINOL

Mae angen gwaith adnewyddu ar Faes Chwarae Plant Betws yn Rhos. Mae'r mater wedi'i archwilio a nodwyd offer addas. Mae hyn wedi'i rannu gyda'r ddarpariaeth cyn-ysgol er mwyn sicrhau bod yr offer cywir yn cael ei ddewis. Mae cais grant wedi'i wneud i gronfa Pride in Place ac i Gronfa Gymunedol y Parc Solar am bron i £50,000, a fydd yn sicrhau datblygiad y maes chwarae. Disgwylir penderfyniadau ar y grantiau.
Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi penderfynu cau'r Toiledau Cyhoeddus yn Llanelian yn barhaol. Penderfynodd y Cyngor Cymuned gymryd drosodd y gwaith o redeg y cyfleuster, ac roedd y costau wedi'u cynnwys yn y cais praesept ar gyfer 2025/2026. Bu oedi wrth sicrhau'r brydles ar gyfer y bloc toiledau, ond mae hyn bellach ar y trywydd cywir, a disgwylir i'r toiledau fod o dan reolaeth y Cyngor Cymuned cyn yr haf ac ar agor i'r cyhoedd.

Yn gywir
Mel Jones
Clerc
Cyngor Cymuned Betws yn Rhos a Llanelian yn Rhos
07833 548435
clerc@betwsallanelian.org.uk